# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Brilliant Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 16 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-4734-9903-4

© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................................................... 7

Ansawdd profiad y claf ........................................................................8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................................12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ...................................................17

4. Beth sydd nesaf? ........................................................................... 19

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..................................... 20

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad..........21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..................................................22

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol:rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Brilliant Dental Care, 44 Ffordd Talbot, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8AF, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 15 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Brilliant Dental Care yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod ganddo amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. .

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd cofnodion cleifion yn drylwyr ac wedi'u cofnodi'n dda
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-staff a thîm ehangach y practis.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cadw tystysgrifau'r staff ar gyfer hyfforddiant a gyflawnwyd.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Brilliant Dental Care yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Pont-y-clun, de Cymru. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys dau ddeintydd, tri ymarferydd deintyddol arbenigol (sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yn rheolaidd), tri hylenydd, pum nyrs ddeintyddol a rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

Gall y practis ddarparu gwasanaethau orthodontig a mewnblaniadau arbenigol drwy dri o ymarferwyr arbenigol sy'n gweithio'n rheolaidd yn y ddeintyddfa.

Mae deintyddfa chwaer gan Brilliant Dental Care sydd wedi'i lleoli'n gyfagos, ac mae hon hefyd yn eiddo i'r prif ddeintydd.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis i gyd. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Maen nhw'n wych. Dw i wastad wedi bod yn ofnus wrth ymweld â deintyddion - mae'r practis hwn wedi fy helpu llawer iawn"*
>
> *"Mae ond yn rhaid i chi barhau i fod yn ystyriol a chynorthwyol fel yr ydych ar hyn o bryd – nid oes angen gwella"*
>
> *"Mae'r gwasanaeth atgoffa drwy e-bost a neges destun wedi cael argraff fawr arnaf"*
>
> *"Maent wedi gwneud gwaith rhagorol ar fy nannedd"*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth ynglŷn â hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn y practis, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. O'r holiaduron a gwblhawyd, cytunodd yr holl gleifion eu bod wedi cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wnaed o ran y dewisiadau ynglŷn â'u triniaeth.

Gwnaeth rhai o'r cleifion roi sylwadau cadarnhaol ychwanegol ar yr holiaduron a oedd yn nodi bod esboniadau ynglŷn â'u triniaethau yn drwyadl a bod cyngor yn cael ei roi mewn ffordd gadarnhaol.

## Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol.  Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm cyfeillgar, a gwelsom ni ymadweithio moesgar a chwrtais gyda'r cleifion.

Roedd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gytuno eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis deintyddol. Roedd y practis yn gallu cynnig man preifat i gleifion pe byddent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol gyda'r tîm deintyddol, i ffwrdd o gleifion eraill.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu arlwy o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG.  Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ardal aros, yn ogystal â chostau am driniaethau deintyddol y GIG.  Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion a leolir yn nerbynfa’r practis.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a ddychwelodd holiaduron wedi’u cwblhau eu bod yn credu eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys y dewisiadau triniaeth oedd ar gael a'r costau. Gwnaeth rhai o'r cleifion wneud sylwadau ychwanegol, gan nodi bod y wybodaeth a roddwyd yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth, a bod y tîm ar gael bob amser i ateb cwestiynau neu bryderon ynglŷn â dewisiadau o ran triniaethau. Canfuom dystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a'r dewisiadau wedi'u nodi o fewn sampl o gofnodion y cleifion a ystyriwyd gennym. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff yn y practis yn siarad â hwy yn eu hiaith ddewisol bob amser.  Gwelsom fod polisi cwynion y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gallu cynnig rhai gwasanaethau yn Gymraeg, ac roedd rhai o'r staff clinigol a'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg. Roedd y wybodaeth a

gyhoeddwyd gan y practis drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog hefyd (Cymraeg a Saesneg).

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Roedd gan y tîm deintyddol fynediad at wasanaeth negeseua sydyn ac roedd staff y dderbynfa yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion ynghylch unrhyw oedi o ran amseroedd apwyntiadau.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn y dderbynfa, ar bwys drws blaen y practis, ac ar neges peiriant ateb y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth pob claf a gwblhaodd holiadur ddweud wrthym ei fod wedi derbyn gwybodaeth ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod yr holl ddewisiadau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi a bod cydsyniad i driniaeth yn cael ei sicrhau gan bob claf.

### Hawliau pobl

Roedd y practis ar lawr cyntaf yr adeilad gyda grisiau a oedd yn arwain tuag at y dderbynfa a'r ystafelloedd triniaeth. Dywedodd y practis wrthym ei fod wedi ystyried gosod lifft, ond nid oedd modd gwneud hyn oherwydd cynllun yr adeilad. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn atgyfeirio cleifion nad oeddent yn gallu cael mynediad at eu gwasanaethau at bractis chwaer lleol, lle y mae'r practis deintyddol yn fwy hygyrch.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac ar gael ar wefan y practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi derbyn ond ychydig iawn o gwynion, a gwelsom fod y practis yn cadw cofnodion manwl o'r cwynion ffurfiol (ysgrifenedig) ac anffurfiol (ar lafar) a dderbyniwyd. Roedd hyn yn caniatáu i'r practis adolygu pryderon, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth i gleifion ynglŷn â sut roedd eu pryderon wedi derbyn sylw. Roedd hyn

yn golygu bod y practis yn dysgu o'r pryderon a godwyd gyda'r nod o wella ymarfer a phrofiad y claf.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy flwch sylwadau yn ardal derbynfa'r practis. Dywedwyd wrthym fod proses ar gyfer casglu sylwadau cleifion drwy holiaduron ffurfiol yn cael ei hystyried gan y practis i'w gweithredu yn y dyfodol agos.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac wedi cael eu cynnal yn dda, ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, y tu fewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor lleol.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[1]

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf[2] a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaeth y staff ddangos proses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff nyrsio wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwelsom lle'r oedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi bod y practis wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer wedi cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU),[3] i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Nid oedd tystysgrif un o'r deintyddion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, ond anfonwyd hwn at AGIC y diwrnod wedyn. Gwelsom fod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd wedi cael ei drefnu ar gyfer newydd-ddyfodiaid nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant eto, a hefyd ar gyfer y rhai a oedd yn dychwelyd yn dilyn seibiant gyrfa. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gadw cofnodion o'r holl hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y practis er mwyn dangos bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn yr amserlenni priodol. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

### Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Cadarnhaodd perchennog y practis fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion; er hynny, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrif ar gyfer un aelod o'r staff ar ddiwrnod yr arolygiad. Cafodd y dystysgrif ei hanfon at AGIC y diwrnod canlynol. Gwnaethom atgoffa perchennog y practis bod yn rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC. Cytunodd perchennog y practis i gael gafael ar gopïau o'r tystysgrifau hyfforddiant priodol a'u cadw.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â'r gwaith wrth uwch-staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

---

[3] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd pedwar allan o'r pum ystafell driniaeth wedi cael eu gweddnewid yn ddiweddar, ac roeddent yn lân, yn daclus, ac wedi eu dodrefnu i safon uchel. Nid oedd y pumed ystafell driniaeth yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol, mewn perthynas â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05; cofnodion hylendid dwylo, gwrthficrobaidd a chleifion, er mwyn nodi meysydd i'w gwella; a gwiriadau ar offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Pan oedd archwiliad a gwblhawyd wedi nodi meysydd i'w gwella, gwelsom fod y practis wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Cawsom ein sicrhau bod amrediad o archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal proses adolygu gan gymheiriaid anffurfiol gyda'i bractis deintyddol chwaer, fel un modd o wella er mwyn ysgogi gwelliant mewn ansawdd i gleifion. Gwelsom hefyd fod yr holl bractis wedi cwblhau dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth [4] yn ddiweddar gyda'r nod o ddarparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer cleifion.

[4] https://www.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar bapur ac yn electronig. Gwnaethom ganfod bod cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo a chofnodion electronig wedi'u diogelu gan gyfrinair i sicrhau mai dim ond staff priodol oedd yn gallu eu gweld. Roedd y practis yn cadw copïau wrth gefn o’r cofnodion electronig bob dydd er mwyn helpu i atal gwybodaeth bersonol a chyfrinachol am gleifion rhag cael ei cholli.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Canfuom fod rhai anghysondebau rhwng rhai o'r ymarferwyr wrth gofnodi rhai agweddau ar wybodaeth. Dywedodd perchennog y practis wrthym fod archwiliad diweddar o gofnodion y cleifion hefyd wedi nodi rhai anghysondebau, a'u bod yn gweithio ynghyd fel tîm practis i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal y sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan holl dîm y practis. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfle ar gael iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol a'u bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Brilliant Dental Care yn eiddo i'r prif ddeintydd, ac mae'n cael ei gefnogi gan reolwr practis a thîm ehangach y practis. Cyfrifoldeb y rheolwr practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd, a chanfuom fod tîm y practis yn defnyddio dull trefnus a rhagweithiol. Cafodd llinellau eglur o adrodd ac atebolrwydd eu disgrifio gan bob un o aelodau tîm y practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y tîm rheoli ddangos parodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y practis, gan gynnwys 'cyfarfod cyflym' yn ystod yr awr ginio a chyfarfodydd nyrsys bob wythnos. Mae cyfarfodydd practis mwy ffurfiol gyda chofnodion yn cael eu cynnal bob mis.

Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Er bod rhifau'r fersiwn wedi'u nodi ar yr holl bolisïau, gwnaethom argymell i reolwr y practis efallai y byddai'n dymuno ystyried nodi'r dyddiad pan gafodd y polisi ei greu er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod bod ganddynt fynediad at y polisi mwyaf cyfredol. Cytunodd rheolwr y practis i wneud y newid hwn.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.  Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu 'hargymell yn fawr'.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad ar eu perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'w harfarniadau.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gadw canlyniadau imiwneiddiadau staff i sicrhau bod cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael gan y bwrdd iechyd.

Roedd rhai o'r deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rhan fwyaf o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd un dystysgrif nad oedd yn gyfredol, a gwelsom gais i'w hadnewyddu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made ahttp://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/madeRheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999,http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Insert name

## Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth:

## Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad: